# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor - Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 8 Medi 2016**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**


Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk


01/09/2016

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC78- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC79- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | CYNIGION YR YMGYNGHORIAD AC ARGYMHELLION DRAFFT YR AELOD PORTFFOLIO AR GYNIGION YSGOLION UWCHRADD A CHYNRADD I'R CABINET AR 27 MEDI 2016 | CC80- 2016 |
|---|---|---|

Yn unol â'r penderfyniad a gymerwyd yng nghyfarfod diwethaf y dylai'r Cyngor Llawn gwrdd i drafod argymhellion sy'n ymwneud â chynigion Ysgolion Uwchradd a Chynradd a effeithir gan Bolisi Trawsnewid a Pholisi Ad-drefnu Ysgolion 2015 y Cyngor, er mwyn hysbysu'r Cabinet o farn y Cyngor cyn y gwneir penderfyniad gan y Cabinet, ystyried argymhellion yr Aelod Portffolio dros Addysg i'r Cabinet ar 27 Medi ynglyn â:

1. Ysgolion Uwchradd Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod
2. Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Gwernyfed
3. Ysgol G.G. Llanbister
4. Ysgol G.G. Llanfihangel Rhydieithon.

(Tudalennau 3 - 6)

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **EITEMAU WEDI'U HEITHRIO** | **CC81- 2016** |

Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod Categori 1, Rheolau Mynediad at Wybodaeth, yn berthnasol i'r eitem canlynol. Ei farn ar brawf lles y cyhoedd, (wedi ystyried darpariaethau Rheol 11.8 Rheolau Mynediad at Wybodaeth y cyngor) oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn groes i egwyddorion y Ddeddf Gwarchod Data. Oherwydd hyn a chan nad oedd yn ymddangos bod yna galw mawr ymhlith y cyhoedd am ddatgelu'r data personol yma, roedd o'r farn bod diddordeb y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy pwysig na diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnir i Aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, a dylent benderfynu hyn wrth iddynt ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **DISWYDDO GORFODOL** | **CC82- 2016** |

Ystyried cymeradwyo manylion ariannol pecyn diswyddo o ganlyniad i benderfyniad y Cabinet i ddiddymu swydd o strwythur trefniadaeth y Cyngor ac i ddiswyddo deilydd y swydd.

(Tudalennau 7 - 10)